Darganfuwyd yn ystod blwyddyn gyntaf trin y tir bod clwy'r gwraidd clap yn rhemp ar y safle. Credwyd y gallai hyn, o bosib, effeithio ar dyfu bresych dwyreiniol, ond nid felly y bu. O ganlyniad i daenu llawer o galch, planhigion wedi'u tyfu mewn modiwlau, natur tyfu'n gyflym bresych dwyreiniol a pheth imiwneidd naturiol cafwyd planhigion iach.

Mae'r planhigion sydd wedi'u tyfu yn y ddau dwnnel polythen wedi'u cadw'n weddol sych yn fwriadol, er mwyn cael cyn lleied â phosibl o lwydni ac afiechydon ffwngaid. Cedwid y lleithder cymharol ar lefel rhwng 65 x 75 y cant. Ni welwyd unrhyw arwydd o afiechyd trwy'r gaeaf hyd yn hyn.

Mae rhai o'r llysiâu, megis y bresych dwyreiniol yn y taflenni gwybodaeth hyn, wedi'u tyfu yn ogystal â'r rhywogaethau oedd ar brawf ar gyfer Glasu; maen nhw wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu.

Diolch yn fawr i Joy Larkcom a'i llyfr, 'Oriental Vegetables' (John Murray (Cyhoeddwr) Cyf. ISBN 0-7195-S597-3). Bu'r llyfr gwych hwn yn gymorth enfawr yn ystod y treialon hyn.

Dave Burrige

## **LLYSIAU GWYRDD EURFLODAU – LLYSIAU GWYRDD SHUNGIKU NEU CHOP SUEY**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Rhywogaeth o'r Eurflodau sy'n cael eu tyfu yn yr ardd am eu blodau yw hon. Mae'n lledgaled ei natur ac yn tyfu'n dda yn nymheredd is yr hydref/y gaeaf ac ar lefelau golau isel. Nid yw'n hoff o dymhereddau uchel dros 25 gradd C oherwydd gall hyn achosi chwerwder a blodeuo'n rhy fuan. Ei dyfu dan gysgod rhwyd, neu mewn cysgod yng nghanol yr haf, sydd orau.

Defnyddir y dail a'r blodau mewn salad. Hefyd gellir tro-ffrio'r dail a'r coesau, eu berwi, eu stemio neu eu defnyddio mewn cawl neu stiwb. Mae'r blas yn neilltuol iawn ac nid yw at ddant pawb. Ychydig fel ysgewyll; rydych naill ai wrth eich bodd â nhw neu'n eu casáu!

### **HAU A THYFU**

Heuwyd yr hadau yn gyntaf mewn modiwlau ac yn uniongyrchol i welyau awyr agored yng nghanol mis Mai. Roedd y tymheredd rhwng 15 a 18 gradd C. Roedd yr egino'n dda yn y ddau achos ond dioddefodd y planhigion a heuwyd yn yr awyr agored ddifrod gwllithod pan roedden nhw'n ifanc. Roedd y planhigion a dyfwyd yn y modiwlau wedi'u plannu 6 modfedd oddi wrth ei gilydd. Tyfodd y planhigion yn gyflym, gan gyrraedd uchder o tua 2 droedfedd. Plannwyd planhigion oedd wedi'u hau mewn modiwlau ddiwedd yr haf yn y twnneli polythen, gyda gwres a hebddo. Fe barhaon i dyfu'n dda drwy'r gaeaf yn y ddau dwnnel. Gall planhigion oddef y rhan fwyaf o briddoedd ac amodau tyfu.

### **NODIADAU**

Mae'n debyg mai eu hau'n olynol trwy gydol y flwyddyn sydd orau, a defnyddio'r planhigion ifanc ar sail 'torri dro a thro'. Gellir tyfu rhai planhigion i flodeuo yn ystod yr haf. Mae'r blodau'n dda mewn salad a hefyd yn dda ar gyfer denu trychfilod. Mae'r planhigyn hwn yn hawdd ei dyfu ac mae'n ymddangos nad yw'n dioddef yn ormodol o ran plâu ac afiechydon ar ôl y cyfnod pan fydd yn dioddef ymosodiad gwllithod.

## LETYS COESYN THAI - CELTUS

### GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO

Aelod o deulu'r letysen yw hwn ac fe'i tyfir yn bennaf er mwyn ei goes. Mae'n edrych fel letysen sydd wedi mynd i had pan fydd yn barod i'w gynaeafu. Nid yw'n gwbl galed ei natur er fe all wrthsefyll tymereddau i lawr hyd y rhewbwynt.

Defnyddir y dail ifanc mewn salad a gellir eu berwi, fel llysiau gwyrdd. Gall y coesau fod 15 modfedd o hyd a 2 fodfedd mewn diamedr ar eu llawn dwf ac fe'i defnyddir mewn salad, seigiau caws, cawl a phicls a gellir eu tro-ffrio.

### HAU A THYFU

Planhigyn da ar gyfer hau mewn modiwlau. Mae'n egino'n gyflym ar dymheredd o tua 16-18 gradd C a bron iawn ar gyfradd o 100% mewn treialon tyfu. Ni fydd yn egino ar dymheredd uchel dros tua 25 gradd C. Cafodd eginblanhigion, a heuwyd ganol mis Mai, eu trawsblannu i welyau awyr agored yng nghanol mis Mehefin. Roedd tua throedfedd rhwng y planhigion. Tyfodd y planhigion yn gyflym yn y tywydd cynnes. Cafwyd y cynhaeaf cyntaf ddechrau mis Gorffennaf. Mae'r planhigion yn sefyll yn eithaf da, sy'n caniatáu cynaeafu dros gyfnod o 3 wythnos. Heuwyd yn yr hydref/y gaeaf mewn ffrâm brifiant ac yna plannu'r eginblanhigion mewn gwely dan do mewn twnnel polythen. Mae'n ymddangos mai gwllithod yw'r unig broblem. Unwaith i'r planhigion ddechrau tyfu, mae golwg eu bod yn ymdopi'n dda iawn a dim ond un neu ddau a gollwyd oherwydd gwllithod.

### NODIADAU

Planhigyn da ar gyfer hau'n olynol yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref ac mewn twnnel lle nad oes rhew yn y gaeaf. Amlbwrpas yn y gegin a llawer o 'goes' i bob planhigyn. Gellid ychwanegu dail ifanc y cnwd gaeaf, sy'n tyfu'n arafach, at salad. Mae'n hyblyg o ran pridd.

## **PERILLA COCH A GWYRDD - SHISO**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Planhigyn rhyfeddol ei olwg, gyda rhywogaethau gwyrdd a choch, y ddau â dail ffriliog. Mae'n edrych braidd fel basil â dail mawr. Mae'r planhigyn yn tyfu hyd uchder o tua throedfedd. Nid yw'n galed ei natur ac mae'n well ganddo amodau tyfu cynhesach. Defnyddir eginblanhigion, dail a choesau blodeuog yn y gegin ar gyfer garnais a sesnin. Gellir eu defnyddio hefyd mewn salad, seigiau ffa a physgod a phicls, a gellir eu tro-ffrio.

### **HAU A THYFU**

Mae gan y planhigyn hwn broblem â hyfywdra hadau. Dylid hau had ffres yn unig gan fod egino'n lleihau'n arw mewn had sydd wedi'i storio. Mewn treialon, heuwyd had ar arwyneb compost mewn modiwlau ar dymheredd o 18-20 gradd C. Rhoddwyd cynnig ar hau nifer o weithiau yn yr haf a'r hydref ac unwaith yn y gaeaf. Cyfradd egino o 30% oedd tua'r gorau a gyflawnwyd.

Cafodd yr eginblanhigion a dyfwyd yn yr haf eu trawsblannu i welyau yn yr awyr agored, gyda thua throedfedd rhwng y planhigion. Roedden nhw'n tyfu'n dda mewn tywydd cynnes. Plannwyd y planhigion a dyfwyd yn y gaeaf mewn twnneli, un gyda gwres ac un hebdo.

### **NODIADAU**

Cynhyrchwyd llawer iawn o ddail a blagur ar y planhigion a dyfwyd yn yr haf ac o'r herwydd roedd yn dda iawn ar gyfer defnydd 'torri dro a thro'. Mae'n hyblyg o ran ffrwythlondeb y pridd a gall dyfu hyd yn oed mewn priddoedd asid. Nid yw'n hoff o bridd oer a thrwm. Mae'n blanhigyn da ond cyfraddau egino yw'r brif broblem. Rwyf am roi cynnig ar luosogi o doriadau yn y gwanwyn er mwyn gweld a yw hon yn ffordd fwy dibynadwy o gynyddu niferoedd planhigion.

## **MORON DAIL BWYTADWY DWYREINIOL**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Moronen gyda dail bwytadwy! Mae hwn yn hawdd ei dyfu ac mae'n ymddangos ei fod yn galed ei natur yn yr awyr agored yn y gaeaf. Mae'r dail ifanc yn ychwanegiad da at salad a gellir eu cynaeafu dros gyfnod hir ar sail 'torri dro a thro'.

### **HAU A THYFU**

Gellir hau'r had yn uniongyrchol mewn gwelyau hadau dan do neu yn yr awyr agored ac mewn modiwlau. Mae'n debyg mai'r dull modiwlau sydd orau dan amodau claeaf a llaith gan y gall gwllithod fod yn broblem â hau'n uniongyrchol. Hau'n uniongyrchol yw'r unig ffordd os ydych eisiau cnwd mawr; os felly, heuwch yn rhy drwm a theneuwch yr eginblanhigion. Bydd yr had yn egino dan amodau tymheredd ystod eang, rhwng 12 a 28 gradd C. Mae'n ymddangos bod tyfiant yn dda dan amodau cynnes neu glaeaf, ond yn well dan amodau cynnes.

### **NODIADAU**

Mae mantais ychwanegol i'r planhigyn hwn gan y gall gynhyrchu moron gwreiddyn trwchus a chwta â blas melys pe tyfir ef ymlaen. Mae'n blanhigyn hawdd ei dyfu ac yn hyblyg o ran pridd a thymhereddau. Mae'n ychwanegiad blasus at becyn salad a gellir tynnu'r gwraidd yn ddiweddarach a'i fwyta. Mae'n debyg ei fod yn dueddol i gael clefyd y pryf moron.

## **SELERI DAIL TSIEINEAIDD - KINTSAI**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Planhigyn ardderchog – seleri heb yr holl broblemau. Mae'n cynhyrchu toreth o ddail dros gyfnod hir ac mae'n eithaf caled ei natur. Mae planhigion a heuwyd ddiwedd yr haf yn dal i fod yn cynhyrchu ddiwedd y mis Ionawr canlynol.

Gellir lledferwi'r coesau a'r dail ac yna'u rhoi mewn salad neu eu tro-ffrio. Mae'n dda iawn hefyd mewn cawl, stiwl, caserol a chyri. Amlbwrpas iawn.

### **HAU A THYFU**

Heuwyd yn gyntaf yng nghanol mis Mai. Cafodd yr had ei ysgeintio ar arwyneb compost mewn hambwrdd hadau ar dymheredd o 12-14 gradd C. Roedd yn egino'n araf ond yn dda. Rhoddwyd yr eginblanhigion mewn celloedd modiwl unigol a'u tyfu ymlaen nes eu bod yn 4 modfedd o uchder. Trawsblannwyd planhigion i wely awyr agored ddechrau mis Gorffennaf, gyda 6 modfedd rhyngddyn nhw. Fe dyfon yn dda mewn tywydd cynnes a chynaeafwyd y dail cyntaf ddiwedd mis Gorffennaf. Mae cynaeafu wedi parhau trwy'r amser ers hynny.

### **NODIADAU**

Mae'n well gan y planhigyn hwn bridd ffrwythlon sy'n dal dŵr, ynghyd â pheth cysgod yn ystod y tywydd poeth. Mae'n ymddangos ei fod yn eithaf hawdd ei dyfu pe rhoddwch yr amodau sy'n hoff ganddo. Mae'n wir werth rhoi cynnig ar dyfu'r planhigyn hwn, o ystyried y lluo o ffyrdd y gallwch ei ddefnyddio yn y gegyn a'r ffaith ei fod yn addas ar gyfer cynaeafu 'torri dro a thro'. Mae'n bosibl y byddai'n gwneud yn well o'i warchod rhag y rhew mewn tywydd gaeafol oer.

## **AMARANTH – GARNET RED**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Planhigyn hynod, gyda dail coch, a all dyfu hyd at 4 troedfedd o uchder. Nid yw'n galed ei natur, gan mai o'r trofannau y daw yn wreiddiol. Mae yna rywogaethau gwyrdd yn ogystal â'r rhai coch, ond methais â chael gafael ar hadau'r rheiny.

Yn y gegin, gellir ychwanegu coesau a dail ifanc at salad. Gellir tro-ffrio coesau a dail hŷn neu eu stemio a'u defnyddio fel sbigoglys. Gellir ei ychwanegu hefyd at gawl, stiw a chaserol ac ati.

### **HAU A THYFU**

Hau'r hadau mewn modiwlau sydd orau ac yna'u gorchuddio. Mae'n egino'n well mewn tywyllwch. Gall egino ar dymheredd i lawr at 10 gradd C ond amgylchedd wedi'i gynhesu i dymheredd o 20 gradd C neu fwy sydd orau. Heuwyd yr hadau cyntaf ddechrau mis Mehefin. Roedd wedi egino a thyfu'n dda a thrawsblannwyd y planhigion i wely mewn man heulog yn yr awyr agored ddechrau mis Gorffennaf, gyda 9 modfedd rhwng y planhigion. Tyfon nhw'n gyflym yn y tywydd poeth a chyrraedd 3 i 4 troedfedd erbyn canol mis Awst. Cafodd y dail eu cynaeafu dros gyfnod o ddeufis.

Yn bendant, roedd angen gwres ar hadau a heuwyd yn yr hydref a'r gaeaf, ac amgylchedd lle nad oes rhew, ac sydd o ddewis yn gynnes, i dyfu ymlaen. Mae'n hyblyg o ran pridd ac nid yw plâu'n broblem i bob golwg.

### **NODIADAU**

Mae hwn yn blanhigyn da ar gyfer y misoedd cynhesach. Mae'n debyg mai hau'n olynol sydd orau a defnyddio planhigion bach i 'dorri dro a thro'. Gellir gadael rhai planhigion i dyfu ymlaen ar gyfer cynaeafu dail mawr i'w defnyddio yn lle sbigoglys. Mae angen gwres ar y cnwd gaeaf i dyfu'n dda ond gellid ei dyfu fel cnwd eginblanhigion gwerth uchel.

## **NIONOD JAPAN – SIBOLS (SHIMONITA) A NIONOD CLWSTWR (KOSHIGAYA)**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Gall fod yn anodd penderfynu pa rywogaethau nionod clwstwr o'r dwyrain i'w defnyddio. Mae yna nifer o wahanol rywogaethau a allai roi ichi'r math o nionyn sydd ei angen ar gyfer y tymor tyfu gofynnol. Gellir hau dros gyfnod hir. Gall fod yn anodd gweld pa rywogaeth yw pa un gan nad yw pecynnau hadau'n rhoi rhyw lawer o wybodaeth am y math na'r potensial tyfiant. Un goes sydd gan rai rhywogaethau a sawl coes gan eraill. Mae rhai i'w defnyddio yn yr haf, ac eraill dros y gaeaf. Heuwyd Koshigaya, sef y rhywogaeth o nionod clwstwr a dyfwyd yn y treialon hyn, ddiwedd yr haf. Fe dyfodd yn dda a gellid ei ddefnyddio fel sibolsyn mawr trwy'r hydref a dechrau'r gaeaf. Erbyn canol mis Ionawr, roedd wedi dechrau blodeuo.

Yn wahanol i nionod clwstwr, gellir argymhell sibols Shimonita fel un o'r sibols gorau a dyfais i erioed. Ychydig iawn o le sydd ei angen arno, mae ganddo gyfnod sefyll hir a gellir ei gynaeafu ar wahanol gyfnodau. Mae yna lu o ffyrdd o'u defnyddio yn y gegin. Gellir eu defnyddio mewn salad, eu tro-ffrio neu eu rhoi mewn cyri, stiwl, caserol ac yn gyffredinol eu defnyddio yn lle nionod.

### **HAU A THYFU**

Mae'r dulliau hau yn berthnasol i sibols a nionod clwstwr. Gellir hau y ddau fath yn uniongyrchol mewn gwely awyr agored yn y gwanwyn a'r haf ac mewn gwely dan do yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Er hynny, y dull gorau yw hau 5 neu 6 hedyn mewn cell modiwl. Ceir egino cyflymach mewn tymereddau uchel o 20 gradd C neu uwch, ond bydd yr had yn egino ar dymheredd o ryw 10 gradd C.

Trawsblannwch gelloedd modiwl cyfan i gŵys fas pan fydd y nionod ryw 3-4 modfedd o uchder. Gosodwch y celloedd nesa at ei gilydd gan nad oes ots gan y planhigion fod yn agos at ei gilydd. Gellir defnyddio gwelyau awyr agored trwy gydol y flwyddyn ond gwell yw trawsblannu yn yr hydref a'r gaeaf i mewn i wely dan do neu wely sydd wedi'i warchod rhywfaint. Er bod y planhigion yn galed eu natur, maen nhw'n tyfu'n well dan do. Gall gwyntoedd cryfion beri niwed i blanhigion yn yr awyr agored hefyd. Roedd tyfiant yng nghanol yr haf yn gyflym dros ben ac, ymhen tair wythnos, roedd y planhigion 10-12 modfedd o uchder â choesau modfedd o drwch. Mae tyfiant yn arafach o lawer yn ystod y misoedd oer.

### **NODIADAU**

Mae sibols Shimonita yn gnwd economaidd iawn. Bydd eu lleoli'n agos at ei gilydd yn cynhyrchu llawer o nionod mewn ardal fach ac mae'r cyfnod cynaeafu hir, ar amrywiol gyfnodau tyfiant, yn rhoi hyblygrwydd.

Gellir trawsblannu nionod clwstwr eildro neu hyd yn oed am y trydydd tro. Defnyddiwch mwy o le rhwng y planhigion y trydydd tro a dylid eu priddo'n raddol wrth iddyn nhw dyfu. Gellir tyfu nionod maint cennin. Y brif broblem â nionod clwstwr yw gwybod arferion rhywogaethau unigol. Hyn sy'n rheoli adegau hau, adegau trawsblannu a'r dull o drawsblannu.

## **CORIANDER FIET-NAM**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Dyma blanhigyn anarferol. Nid gwir goriander mohono ond, yn hytrach, llwyn lluosflwydd ydyw. Mae blas y dail, sydd ar ffurf picell, ychydig yn debyg i goriander a defnyddir y planhigyn yn eang yng nghoginio Asia. Gan ei fod yn blanhigyn lluosflwydd, mae'n cynnig potensial cynaeafu dail gydol y flwyddyn. Gellir defnyddio'r dail hyn yn lle coriander.

Nid yw'n hollol galed ei natur ond gall wrthsefyll tymheredd isel yn dda. Mae'n debyg ei bod yn well ei gadw mewn amgylchedd heb rew yn y gaeaf.

### **HAU A THYFU**

Gellir ei dyfu o had ond cael fy mhlanhigion fel plygiau bychan wnes i ac yna'u plannu mewn potiau 6 modfedd. Fe dyfon nhw'n gyflym yn ystod y tywydd cynnes ac fe'u plannwyd mewn potiau mwy yn ôl y galw, wrth iddyn nhw dyfu. Erbyn dechrau'r hydref, roedd y planhigion 2-3 troedfedd o uchder ac mewn potiau 15 modfedd. Parhaodd tyfiant yn dda yn ystod y gaeaf mewn twnnel polythen â gwres.

### **NODIADAU**

Mae'r planhigyn hwn yn cynhyrchu toreth o ddail ac mae'n hawdd ei dyfu. Nid oes angen rhoi llawer o sylw iddo ac nid yw'n dioddef o blâu nac afiechydon i bob golwg. Mae'n ymddangos bod cogyddion yn gwerthfawrogi blas y dail.

## **PERSLI JAPAN - MITSUBA**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Planhigyn lluosflwydd caled sy'n cael ei dyfu fel planhigyn unflwydd fel rheol. Mae rhywbeth yn debyg i bersli Ewrop ond mae'r blas ysgafn yn wahanol. Defnyddir y dail a'r coesau. Gellir ei gynaeafu dros gyfnod hir ac ar wahanol gyfnodau tyfiant.

Fe'i defnyddir yn y gegin ar gyfer salad, cawl, stiwb ac i'w dro-ffrio.

### **HAU A THYFU**

Hau'r hadau pan fo'r tymheredd o gwmpas 25 gradd C sydd orau. Er hynny, bydd yn egino ar dymereddau is na'r tymheredd gorau posibl, neu ar dymereddau uwch. Gellir ei hau'n uniongyrchol mewn gwely awyr agored neu wely dan do, a hefyd mewn modiwlau neu hambyrddau hadau.

Mewn treialon, heuwyd yr had mewn modiwlau ar y tymheredd gorau posibl, ddechrau mis Awst. Roedd yr egino'n araf ac nid oedd yn arbennig o dda, gyda chyfradd llwyddiant o 50-60% yn unig. Trawsblannwyd y planhigion i wely mewn twnnel wedi'i gynhesu ddechrau mis Hydref. Bu tyfiant wedi hynny'n eithaf da a pharhaodd y cynaeafu trwy gydol y gaeaf. Roedd tua 9 modfedd rhwng y planhigion.

Bydd yn tyfu yn y rhan fwyaf o briddoedd ond mae'n well gan y planhigyn hwn bridd ffrwythlon a llaith, dan gysgod.

### **NODIADAU**

Planhigyn da gyda llawer o botensial. Mae'n debyg mai hau had bob ryw ychydig fisoedd sydd orau, trwy gydol y flwyddyn. Gellir cynaeafu'r planhigion wrth 'dorri dro a thro'. Mae problem ynghylch hyfywdra'r hadau, ond mae'n bosibl mai'r hadau a ddefnyddiwyd ar gyfer y treialon hyn yn unig sydd ar fai.

## **BRESYCH DWYREINIOL – CABAETS TSIEINA (DAIL TSIEINA), PAK CHOI A CHOY SUM**

### **GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO**

Unwaith eto, gall fod yn anodd penderfynu pa rywogaethau bresych dwyreiniol i'w defnyddio gan fod yna lawer o bosibiliadau. Mae dail Tsieina a Pak Choi eisoes yn adnabyddus ond fe'i treialwyd yma er mwyn darganfod -

- iv) pa rywogaethau sy'n tyfu orau yn yr ardal hon;
- v) pa rywogaethau sydd orau rhag mynd i had;
- vi) pa rywogaethau sydd fwyaf hyfyw ar gyfer eu hau yn y gaeaf/y gwanwyn a'u tyfu trwy gydol y flwyddyn mewn twnnel polythen wedi'i wresogi.

Gellir cynaeafu'r rhan fwyaf o fresych dwyreiniol ar wahanol gyfnodau o'u tyfiant, o gnwd eginblanhigion i flagur sy'n blodeuo. Ar gyfer cynhyrchiant yr haf/yr hydref y mae rhai rhywogaethau, ond mae eraill yn ddigon caled eu natur i fynd trwy'r gaeaf. Dylid bod yn ofalus wrth ddethol rhywogaethau ar gyfer y math o gnwd sydd ei angen e.e. ar ba gyfnod o dyfiant fyddwch chi am gynaeafu, ac adeg hau yn y flwyddyn. Nid oes digon o wybodaeth bob amser ar becynnau hadau i gadarnhau'r ffeithiau hyn yn union.

Gall mynd i had yn gynnar (blodeuo) fod yn broblem hefyd, yn enwedig yn y gwanwyn. Mae'n ymddangos mai amodau tyfu oer yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl eginio ac oriau golau dydd yn ymestyn yw'r prif resymau dros hyn.

Mae bron iawn pawb yn gwybod sut y gellir eu defnyddio yn y gegin, gan gynnwys tro-ffrio, eu rhoi mewn salad a'u defnyddio fel llysiau gwyrdd.

### **HAU A THYFU**

Gellir hau bresych dwyreiniol yn uniongyrchol mewn gwely dan do neu yn yr awyr agored a hefyd mewn modiwlau. Mae'n debyg mai'r dull modiwlau sydd orau. Mae tymheredd eginio a thyfu ymlaen o rhwng 18-22 gradd C yn ddelfrydol. Gall cynnal y tymheredd hwn dros yr ychydig wythnosau cyntaf helpu i osgoi mynd i had yn gynnar. Mae hau ganol gaeaf, cyn belled ag y gellir cynnal tymereddau uchel, yn llwyddiannus ond argymhellir hefyd ymestyn hyd golau dydd i tua 11 awr.

Mae'r pellter rhwng planhigion wedi'u trawsblannu'n dibynnu ar ba gyfnod cynaeafu y mae gofyn amdano. Gellir eu plannu 2-3 modfedd ar wahân i gael cnwd ifanc, rhyw 6 modfedd i gael cnwd 'torri dro a thro' a 12-15 modfedd i gael cnwd aeddfed. Mae'r bresych hyn yn hyblyg o ran y math o bridd ond mae arnyn nhw angen cynnwys nitrogen uchel.

### **CABAETS TSIEINA NEU DDAIL TSIEINA – GYDA PHEN A HEB BEN**

Rhywogaethau ar brawf:

- |               |   |   |
|---------------|---|---|
| Wong Bok      | - | Canol tymor, gyda phen                                  |
| Maruba Santoh | - | Trwy gydol y flwyddyn, dail llac (da mewn tywydd poeth) |
| Yuci          | - | O'r gwanwyn ymlaen, gyda phen                           |

Cynhyrchodd pob rhywogaeth ganlyniadau ardderchog yn dilyn hau mewn modiwlau ddiwedd mis Gorffennaf. Roedden nhw i gyd yn barod i'w cynaeafu erbyn dechrau mis Medi. Ni safodd Maruba Santoh nac Yuci yn dda ac roedden nhw wedi dechrau blodeuo cyn pen 1 neu 2 wythnos. Mae'n well cynaeafu'r cnwd aeddfed i gyd ar unwaith neu dros gyfnod byr. Bydd hau olynol yn ymestyn y cyfnod cynaeafu. Mae priodweddau sefyll ardderchog gan Wong Bok. Roedd rhai planhigion nad oedden nhw wedi'u cynaeafu yn dal yn gadarn ac mewn cyflwr da ddiwedd mis Hydref. Yn y pen draw, daeth y rhew ond nid oedd arwydd eu bod am flodeuo. Mae'r 3 rhywogaeth hyn yn dda ar gyfer eu defnyddio fel eginblanhigion neu eu 'torri dro a thro' yn y gaeaf, cyn belled â'u bod yn cael eu gwarchod rhag rhew. Gellir disgwyl tyfiant rhesymol os gellir cynnal y tymheredd yn uwch na 6 gradd C. Mae treialu'r rhywogaethau hyn yn dal i barhau.

## PAK CHOI

Rhywogaethau ar brawf:

- Joy Choi - Math unionsyth, gyda choesau gwyn
- Tatsoi - Math rhosglwm

Mae Joy Choi yn unionsyth gyda choesau gwyn, ac mae'n fath cyfarwydd iawn o Pak Choi, ond nid oeddwn mor gyfarwydd â Tatsoi. Rhoddais gynnig ar y ddwy rywogaeth ar gyfer cynhyrchu yn yr hydref/y gaeaf. Profodd y Tatsoi i fod yn galetach ei natur o lawer ddiwedd yr hydref yn yr awyr agored a hyd yn oed mewn twnnel polythen heb wres yn y gaeaf. Mae'n cynhyrchu toreth o ddail ar ffurf llwy a choesau blasus sy'n hawdd eu cynaeafu wrth 'dorri dro a thro'. Roedd hefyd yn sefyll yn dda, heb flodeuo, am gyfnod llawer yn hwy na'r Joy Choi. Mae'n ymddangos bod Tatsoi yn blanhigyn defnyddiol iawn ar gyfer cynhyrchu yn yr hydref/y gaeaf.

## CHOY SUM

Tyfir y bresych hwn er mwyn ei goesau sy'n blodeuo. Maen nhw'n ychwanegiad da at salad ac at seigiau tro-ffrio. Fe'i hargymhellir yn bennaf ar gyfer cynhyrchu ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref.

Ni fu cynhyrchu Choy Sum yn y gorffennol yn llwyddiannus iawn. Aeth y planhigion i flodeuo yn gyflym iawn, gyda chnwd bach cyn mynd i had. Cynhaliwyd y treialon presennol ar batrwm cynhyrchu yn yr hydref/y gaeaf, a dyma lle, yn fy marn i, y mae'n ennill ei blwy. Bu'n llwyddiannus yn y twnneli gyda gwres a heb wres, gan gynhyrchu llawer o goesau sy'n blodeuo. Os yw'r rhain yn cael eu cynaeafu cyn iddynt hadu, bydd y planhigion yn cynhyrchu mwy o goesau sy'n blodeuo. Mae'r planhigion hyn wedi bod yn cynhyrchu'n barhaus ers mis Hydref ac yn dal i fod wrthi ddiwedd mis Ionawr.

## NODIADAU

Mae'r bresych dwyreiniol hyn yn eithaf hawdd i'w tyfu ac yn tyfu'n gyflym iawn. Dylid gallu cynhyrchu cnwd trwy gydol y flwyddyn, wrth ddefnyddio amrywiaeth o rywogaethau.

## RHUDDYGL JAPAN/TSEINA

Rhywogaethau ar brawf:

Mooli	–	Yr hydref/y gaeaf (Gwyn)
China Rose a Rosa	–	Yr hydref/y gaeaf (Coch, Pinc)

## GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO

Yn anffodus, cyfyng yw'r nifer o rywogaethau o ruddygl Dwyreiniol y gellir cael gafael arnyn nhw'n hawdd yn y wlad hon. Er hynny, mae digon ohonyn nhw i sicrhau eu tyfu trwy gydol y flwyddyn. Dim ond un rywogaeth o Mooli y llwyddais i gael gafael arno, sef math mindwase sy'n cael ei argymell ar gyfer hau yn y gwanwyn a hau yn yr hydref ar gyfer cynhyrchu gwarchoddedig yn y gaeaf. Mae treialu'r hau yn y gaeaf yn parhau.

Gellir defnyddio rhuddygl dwyreiniol mewn nifer o ffyrdd yn y gegin. Gellir eu defnyddio mewn salad, caserol, stiwy, cyri a llawer saig arall yn ogystal â'u troffrio. Nid yw'r llyisiau hyn yn cael eu llawn gwerthfawrogi.

## HAU A THYFU

Hau'r rhywogaethau gwraidd hir, megis Mooli a Rosa, yn uniongyrchol mewn gwely hadau yn yr awyr agored neu dan do sydd orau. Gellir hau'r rhywogaethau gwraidd crwn, megis China Rose, mewn modiwlau.

Gan mai bresych ydyn nhw, mae rhuddygl yn dueddol o fynd i had yn yr un modd â chabaets a pak choi. Dylid hau'r had mewn tymheredd uwch na 12 gradd C a chynnal y tymheredd hwn ar gyfer yr ychydig wythnosau cyntaf o dyfiant. Gall cyfyngu ar olau dydd, i tua 11 awr yn y gwanwyn, hefyd fod yn ddefnyddiol.

Mae rhuddygl yn hyblyg o ran mathau o bridd. Er hynny, mae'r rhywogaethau gwraidd hir yn hoffi pridd sy'n weddol llac er mwyn i'r gwreiddyn dyfu'n hawdd.

## NODIADAU

Gall y gwreiddiau ddiweddef difrod gan wllthod, yn enwedig ar ran uchaf y planhigion (yr ysgwyddau). Gall priddo gwreiddiau rhywogaethau'r hydref/y gaeaf fod yn ddefnyddiol i helpu i atal hyn. Fel arall, mae rhuddygl yn hawdd i'w tyfu cyn belled â cheir yr amodau tyfu gorau posibl. Mae'n debyg y bydd angen peth gwres ar ruddygl sy'n cael eu hau a'u tyfu yn y gaeaf er mwyn iddyn nhw dyfu'n dda.

## CYNGAF Y DWYRAIN

### GWYBODAETH GYFFREDINOL A SUT I'W DEFNYDDIO WRTH GOGINIO

Mae'r planhigyn hwn yn debyg iawn i'r cyngaf gwyllt a welir ym Mhrydain. Defnyddir y gwraidd yn bennaf ond mae'r dail a'r coesau ifanc hefyd yn cael eu defnyddio. Yn y gegin, defnyddir y gwreiddiau wrth dro-ffrio a gellir eu berwi, eu rhostio neu eu hychwanegu at stiw. Rhaid paratoi'r gwreiddiau rhywfaint cyn eu defnyddio. Mae angen eu plicio ac yna'u socian mewn dŵr am o leiaf awr i gael gwared â'u chwerwder.

### HAU A THYFU

Dyma blanhigyn gweddol hawdd i'w dyfu. Argymhellir eu hau yn y gwanwyn a'r hydref. Gellir eu hau'n uniongyrchol mewn gwely awyr agored neu dan do neu eu hau mewn modiwlau. Y tymheredd egino yw 10 gradd C neu fwy. Cafodd yr hadau eu hau mewn modiwlau yn y treialon hyn. Roedd yr egino'n eithaf da ac fe dyfodd yr eginblanhigion yn eithaf cyflym. Yna, trawsblannwyd y planhigion i wely awyr agored, gyda 12 modfedd rhwng y planhigion. Mae gan y planhigyn ddail mawr sy'n gwywo yn yr hydref. Mae'n werth nodi lleoliad pob planhigyn oherwydd gall fod yn anodd dod o hyd iddyn nhw pan fydd y dail yn diflannu. Gall dadwreiddio fod yn broblem gan fod y gwreiddiau'n eithaf mawr a brau.

Pridd lôm tywodlyd, dwfn sydd orau gan y planhigyn, ond fe dyfodd yn dda mewn clai gyda pheth tail buarth fferm wedi'i ychwanegu ato.

### NODIADAU

Planhigyn sy'n hwyl ei dyfu ond mae'n debygol ei fod yn gweddu orau i gynhyrchu arbenigol ar gyfer marchnad gyfyngedig.